# Erthygl 14 – Cyllid, Cytundebau a Materion Cyfreithiol

## 14.01 Rheolaeth Ariannol

Rheolir materion ariannol y Cyngor yn unol â'r rheolau ariannol a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn, a rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Pwyllgor Archwilio ystyried a chymeradwyo diwygiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

## 14.02 Contractau

Bydd pob contract a wneir gan y Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

## 14.03 Achosion cyfreithiol

Awdurdodir Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i gychwyn, amddiffyn neu gyfranogi mewn unrhyw achos cyfreithiol lle be angen dwyn achos o'r fath i weithredu penderfyniadau'r Cyngor neu mewn achos lle bo Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol o'r farn bod angen cymryd camau o'r fath i warchod buddiannau'r Cyngor.

## 14.04 Dilysu Dogfennau

Lle bo angen unrhyw ddogfen ar gyfer unrhyw weithdrefn neu achos cyfreithiol ar ran y Cyngor, fe'i llofnodir gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol neu berson arall a awdurdodir ganddo ef/hi, oni bai fod unrhyw ddeddfu yn awdurdodi neu yn ei gwneud yn ofynnol i fod fel arall, neu fod y Cyngor wedi rhoi awdurdod gofynnol i ryw berson arall.

Gwneir unrhyw gontract sy'n werth mwy na £50,000 a luniwyd ar ran yr Awdurdod Lleol yn ystod cyflawni swyddogaeth y Bwrdd Gweithredol, yn ysgrifenedig. Rhaid i gontractau o'r fath naill ai gael eu llofnodi gan o leiaf ddau o swyddogion yr Awdurdod neu gael eu gwneud o dan sêl gyffredin y Cyngor a ardystiwyd gan o leiaf un swyddog.

## 14.05 Sêl Gyffredin y Cyngor

Cedwir Sêl Gyffredin y Cyngor mewn lle diogel yng ngofal Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. Bydd penderfyniad gan y Cyngor, neu unrhyw ran ohono, yn awdurdod digonol i selio unrhyw ddogfen sy'n angenrheidiol i weithredu'r penderfyniad. Gosodir y Sêl Gyffredin ar y dogfennau hynny y dylid ym marn Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol gael eu selio. Bydd gosod y Sêl Gyffredin yn cael ei ardystio gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol neu ryw berson arall a awdurdodwyd ganddo/ganddi.